**Hen, Hen Stori**

Hen, Hen stori yw hon
Hen, Hen stori yw hon
Dewch gyda ni i ddathlu'r stori
Dathlu'r stori am eni'r Iesu
Brenin Nef.

Wyt ti'n cofio stori Sinderela?
Ydy mae hi'n hen
Ond nid yw stori Sinderela
R'un mor hen a hon.

Wyt ti'n cofio stori geni'r Iesu?
Ydy – mae hi'n hen
Stori baban bach ym Methlem Jiwda
Y stabal llwm yn llawn

Cofiwn ddweud y stori bob Nadolig
Er ei bod hi'n hen
A chario neges yn ein calon
A'i rhoi o law i law.

**Ydyn nhw'n anghofio?**

A welsoch chi'r holl redeg nôl a mlaen
Mae'r ddwy hen chwaer yn nyts, mae hynny'n blaen.
Wrth chwilio am y ffrogie cranda
Rhedeg am y persawr dryta'

O! O! Tybed ydyn nhw'n anghofio
Pa frenin ydi hwn.
Tybed ydyn nhw'n anghofio
Pa frenin ydi hwn.

A glywsoch chi'r holl weiddi nerth eu pen
A sgrechian mawr fel tasai'r byd ar ben?
Wrth drio colli pwysau'n handi
Hynny cyn mynd draw i'r parti

Pan fyddan nhw yn cyrraedd draw i'r lle
Fe fyddan nhw yn sylwi be 'di be
Pan fydd y 'jel' a'r sent yn llifo
Welan nhw wrth gyrraedd yno.